	A1	A2	B1	B2	C1	C2
Gwrando a deall	Dw i'n gallu adnabod geiriau cyfarwydd, ymadroddion sylfaenol iawn amdana i fy hun, fy nheulu a'r pethau sydd o gwmpas, pan fydd pobl yn siarad yn araf ac yn glir. ◄■►	Dw i'n gallu deall ymadroddion a'r geiriau mwyaf cyffredin sy'n uniongyrchol berthnasol i mi, (e.e. gwybodaeth bersonol sylfaenol, siopa, yr ardal leol, gwaith). Dw i'n gallu deall y prif bwynt mewn negeseuon a hysbysebion byr, clir a syml. ◄■►	Dw i'n gallu deall prif bwyntiau mewn siarad safonol, clir ar bynciau cyfarwydd mewn gwaith, ysgol, hamdden ac ati. Dw i'n gallu deall prif bwynt llawer o raglenni teledu neu radio ar bynciau cyfredol neu bynciau o ddiddordeb personol neu broffesiynol os yw'n cael ei ddweud yn araf ac yn glir. ◄■►	Dw i'n gallu deall siarad estynedig a darlithiau a dilyn dadleuon cymhleth, cyhyd bod y pwnc yn weddol gyfarwydd. Dw i'n gallu deall y rhan fwyaf o newyddion y teledu a rhaglenni materion cyfoes. Dw i'n gallu deall y rhan fwyaf o ffilmiau mewn tafodiaith safonol. ◄■►	Dw i'n gallu deall siarad estynedig hyd yn oed pan nad oes strwythur clir a phan fydd cysylltiadau'n cael eu hawgrymu, nid eu dweud yn blwmp ac yn blaen. Dw i'n gallu deall rhaglenni teledu a ffilmiau heb lawer o ymdrech. ◄■►	Dw i ddim yn cael trafferth deall unrhyw fath o iaith lafar, yn fyw neu wedi ei darlledu, hyd yn oed pan fydd ar gyflymdra cyflym brodorol, cyhyd fy mod i'n cael rhywfaint o amser i ymgyfarwyddo â'r acen. ◄■►
Darllen a deall	Dw i'n gallu deall enwau a geiriau cyfarwydd a brawddegau syml iawn, e.e. ar hysbysiadau, posteri neu mewn catalogau. ◄■►	Dw i'n gallu darllen darnau byr iawn. Dw i'n gallu cael hyd i wybodaeth benodol, ragweladwy mewn deunydd pob dydd, fel hysbysebion, bwydlenni ac amserlenni a dw i'n gallu deall llythyrau personol byr. ◄■►	Dw i'n gallu deall testunau sy'n cynnwys iaith sy'n codi'n aml neu sy'n ymwneud â'r gwaith. Dw i'n gallu deall digwyddiadau a ddisgrifir, teimladau a dymuniadau mewn llythyrau personol. ◄■►	Dw i'n gallu deall erthyglau ac adroddiadau yn ymwneud â phroblemau cyfoes lle mae'r ysgrifenwyr yn mynegi agweddau neu safbwyntiau. Dw i'n gallu deall rhyddiaith lenyddol gyfoes. ◄■►	Dw i'n gallu deall testunau ffeithiol a llenyddol hir a chymhleth, gan werthfawrogi gwahaniaethau arddull. Dw i'n gallu deall erthyglau arbenigol a chyfarwyddiadau technegol hirach, hyd yn oed pan nad ydyn nhw'n perthyn i'm maes i. ◄■►	Dw i'n gallu darllen pob ffurf ar iaith ysgrifenedig, yn cynnwys testunau haniaethaol, sy'n gymhleth o'r safbwynt strwythurol neu ieithyddol, fel llawlyfrau, erthyglau arbenigol a gweithiau llenyddol. ◄■►
Siarad - rhyngweithio	Dw i'n gallu trafod mewn ffordd syml, os bydd y person arall yn barod i ailadrodd ac aralleirio pethau'n araf a'm helpu i ffurfio brawddegau. Dw i'n gallu gofyn cwestiynau syml a'u hateb lle bydd angen uniongyrchol neu ar bynciau cyfarwydd iawn. ◄■►	Dw i'n gallu cyfathrebu mewn tasgau syml cyffredin, sy'n gofyn am gyfnewid gwybodaeth ar bynciau a gweithgareddau cyfarwydd. Dw i'n gallu cynnal sgwrs gymdeithasol fer, er nad ydw i'n gallu deall digon i gadw'r sgwrs i fynd fy hun. ◄■►	Dw i'n gallu delio â'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd sy'n debygol o godi wrth deithio mewn ardal lle mae'r iaith yn cael ei siarad. Dw i'n gallu ymuno â sgwrs yn fyrfyfyr ar bynciau sy'n gyfarwydd, o ddiddordeb personol neu'n berthnasol i fywyd pob dydd (e.e. teulu, diddordebau, gwaith, teithio a digwyddiadau cyfoes. ◄■►	Dw i'n gallu ymwneud â siaradwyr brodorol yn rhugl ac yn fyrfyfyr. Dw i'n gallu cymryd rhan mewn trafodaethau mewn sefyllfaoedd cyfarwydd, gan roi cyfri am fy safbwyntiau a'u cynnal. ◄■►	Dw i'n gallu fy mynegi fy hun yn rhugl ac yn fyrfyfyr heb lawer o ymbalfalu am ymadroddion. Dw i'n gallu defnyddio iaith yn hyblyg ac yn effeithiol at ddibenion cymdeithasol a phroffesiynol. Dw i'n gallu ffurfio syniadau a barnau yn fanwl, gan gysylltu fy nghyfraniad yn ddeheuig â'r hyn sydd gan siaradwyr eraill. ◄■►	Dw i'n gallu cymryd rhan mewn unrhyw sgwrs neu drafodaeth yn ddiymdrech ac yn gyfarwydd iawn â phriod-ddulliau a dywediadau llafar. Dw i'n gallu fy mynegi fy hun yn rhugl a chyfleu arlliw penodol i ystyr yn fanwl. Os ydw i'n cael problem, dw i'n gallu mynd yn ôl, ac ailstrwythuro o gwmpas y broblem mewn ffordd mor esmwyth fel nad yw pobl eraill yn ymwybodol ohono. ◄■►
Siarad - cynhyrchu	Dw i'n gallu defnyddio ymadroddion a brawddegau syml i ddisgrifio lle dw i'n byw a'r bobl dw i'n eu nabod. ◄■►	Dw i'n gallu defnyddio cyfres o ymadroddion a brawddegau i ddisgrifio fy nheulu a phobl eraill, fy nghefndir addysg a'm swydd bresennol neu fwyaf diweddar. ◄■►	Dw i'n gallu cysylltu ymadrodddion mewn ffordd syml i ddisgrifio profiadau a digwyddiadau, fy mreuddwydion ac uchelgeisiau. Dw i'n gallu rhoi rhesymau ac esboniadau cryno dros safbwyntiau a chynlluniau. Dw i'n gallu adrodd stori a dweud beth yw plot llyfr neu ffilm a disgrifio fy ymatebion. ◄■►	Dw i'n gallu cyflwyno disgrifiadau clir, manwl ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â'm maes diddordeb. Dw i'n gallu esbonio safbwynt ar bwnc cyfoes yn rhoi manteision ac anfanteision dewisiadau amrywiol. ◄■►	Dw i'n gallu cyflwyno disgrifiadau clir a manwl o bynciau cymhleth, gan integreiddio is-themâu, gan ddatblygu pwyntiau penodol, a chloi gyda chasgliad priodol. ◄■►	Dw i'n gallu cyflwyno disgrifiad neu ddadl sy'n llifo'n glir ac yn esmwyth mewn arddull sy'n briodol i'r cyd-destun gyda strwythur rhesymegol effeithiol sy'n helpu'r derbynnydd i sylwi ar bwyntiau arwyddocaol a'u cofio. ◄■►
Ysgrifennu	Dw i'n gallu ysgrifennu cerdyn post syml, yn anfon cyfarchion gwyliau; dw i'n gallu llenwi ffurflen yn gofyn am fanylion personol: e.e. rhoi enw, cenedl a chyfeiriad ar ffurflen cofrestru gwesty. ◄■►	Dw i'n gallu ysgrifennu nodiadau a negeseuon byr, syml yn ymwneud ag anghenion uniongyrchol. Dw i'n gallu ysgrifennu llythyr personol syml, e.e. yn diolch i rywun am rywbeth. ◄■►	Dw i'n gallu ysgrifennu testun syml, cysylltiol ar bynciau cyfarwydd neu o ddiddordeb personol. Dw i'n gallu ysgrifennu llythyrau personol yn disgrifio profiadau ac argraffiadau. ◄■►	Dw i'n gallu ysgrifennu testun clir a manwl ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â'm diddordebau. Dw i'n gallu ysgrifennu traethawd neu adroddiad gan drosglwyddo gwybodaeth neu roi rhesymau o blaid neu yn erbyn safbwynt arbennig. Dw i'n gallu ysgrifennu llythyrau personol yn amlygu arwyddocâd digwyddiadau a phrofiadau. ◄■►	Dw i'n gallu fy mynegi fy hun mewn testun clir wedi ei strwythuro'n dda, gan fynegi safbwyntiau estynedig. Dw i'n gallu ysgrifennu am bynciau cymhleth mewn llythyr, traethawd neu addroddiad, gan danlinellu'r pwyntiau pwysicaf yn fy marn i. Dw i'n gallu dewis yr arddull mwyaf priodol i'r darllenydd sydd gennyf mewn golwg. ◄■►	Dw i'n gallu ysgrifennu testun clir sy'n llifo'n esmwyth mewn arddull addas. Dw i'n gallu ysgrifennu llythyrau cymhleth, adroddiadau neu erthyglau sy'n cyflwyno achos gyda strwythur rhesymegol effeithiol sy'n helpu'r derbynnydd i sylwi ar bwyntiau pwysig a'u cofio. Dw i'n gallu ysgrifennu crynodebau ac adolygiadau o weithiau proffesiynol neu lenyddol. ◄■►